Y DINESYDD

Mawrth/Ebrill 2004 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 287

# CYMRAEG YN Y BAE

Yn dilyn erthygl tudalen flaen Y Dinesydd ( Hydref 2003) lle bu son am naws Seisnig Bae Caerdydd, aeth disgyblion Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ati i geisio newid rhywfaint ar y sefyllfa annerbyniol hon.

Cysylltwyd â Menter Caerdydd i weld a oedd modd gwneud rhywbeth ar y cyd. Bu ymateb brwdfrydig iawn ar ran Menter Caerdydd a threfnwyd i Leah Rhydderch ddod i'r ysgol i drafod gyda'r disgyblion holl bosibiliadau cymreigeiddo'r Bae.

Aeth y disgyblion ati i ffurfio llythyr yn son am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig ym mhrif ddinas ein gwlad. Soniwyd am y grantiau sydd ar gael, y gwobrau sydd i'w hennill ond yn arbennig am yr arwyddion y mae Menter Caerdydd yn eu rhoi yn rhad ac am ddim! Cynigiodd y disgyblion i gyfieithu bwydlenni'r tai bwyta hyd yn oed!

Cafwyd ymateb ardderchog. Cytunodd ugain o dai bwyta a busnesau i gyfarfod â'r disgyblion ar eu hymweliad â'r bae. Derbyniwyd nifer o fwydlenni i'w cyfieithu a rhoddwyd sawl arwydd "AR AGOR" ac "AR GAU" dwy-ieithog yn eu lle. I gwblhau prynhawn ardderchog o waith coronwyd y cyfan ag ymweliad â Chadwalader lle cafodd y disgyblion ( a'r athrawon!) hufen iâ blasus iawn - am hanner pris.

Efallai i rai ohonoch weld y disgyblion yn cyflwyno eu pecynnau ar raglen Ffeil yn ddiweddar. Dechrau yn unig yw'r fenter hon. Mae cynlluniau ar y gweill am fwy o fewnbwn gan ddisgyblion yr ysgol i gynorthwyo'r busnesau yn y Bae i fabwysadu ethos mwy Cymraeg.




Plant Ysgol Melin Gruffydd yn cyflwyno'r pecyn i Iestyn Evans perchennog Tŷ Bwyta Izakaya Japanese Tavern

Ymysg y tai bwyta a busnesau a ymatebodd i'r cynnig mae Café Naz, Coffee Mania, Izakaya Japanese Tavern, Scallops, Signor Valentino, Bistro 10, Tapas, Cadwaladers, Harry Ramsdens, Water guard, Spice Merchant, Ken Picton Hair and Spa, Classic Eyes, Designer Room, James Hull Associates, FT5K a Waterfront. Beth am ddangos eich cefnogaeth iddynt?

# SIALENS Y MARATHON

Fyddwch chi'n eistedd ar y soffa a gwylio Marathon Llundain ar y teledu bob gwanwyn? Wel eleni, os y craffwch chi'n ofalus, falle y gwelwch chi dri pherson egnïol iawn o Gaerdydd yng nghanol y 30,000 o redwyr, yn gwisgo festiau rhedeg Tomos y Tanc!

Ar Ebrill 18 bydd Mairwen Price a Siân a Rhys Powys yn ymdrechu i redeg y 26.2 milltir - a hynny am y tro cyntaf yn Llundain. Bu'r tri yn ymarfer ers dechre Ionawr - a hynny ym mhob tywydd!

Medde Siân "Rydyn ni'n tri wedi bod yn rhedeg ers rhai blynyddoedd ac wedi cwblhau sawl ras yng Nghaerdydd a dros y ffin yng Nghaerfaddon. Pinacl gyrfa pob rhedwr yw rhedeg mewn ras fawr a phoblogaidd - a does 'na'r un ras yn enwocach na Marathon Llundain."

Bob blwyddyn bydd miliynau o bunnoedd yn cael eu codi gan y rhedwyr fel nawdd at wahanol elusennau. Eleni bydd Mairwen, Siân a Rhys yn rhedeg er budd y 'Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol' (National Autistic Society) ac yn



gwisgo lifrau Tomos y Tanc y mudiad. Eu nod yw codi dros £1, 500 i'r gymdeithas sy'n cynnig cymorth ymarferol i blant ac oedolion sy'n delio gyda'g amrywiaeth eang o broblemau ar y spectrwm awtistig.

Os hoffech chi wybod mwy am y Marathon, neu gyfrannu at yr elusen, yna cysylltwch â Rhys a Siân a Mairwen ar 2056 4131. Pob lwc iddynt!

# Y Dinesydd

**Mawrth/Ebrill, Rhif 287.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd.*
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
**Sian Parry-Jones**

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
**Cen Williams**

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mai 2004 erbyn 23 Ebrill at:**
Cen Williams, 27 Llantrisant Rise, Llandaf, Caerdydd CF5 2PG (Ffôn: 029-2057-5439; e-bost: cenwilliams@aol.com).
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ Ffôn: 029-2062-8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod)

## DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu'r *Dinesydd* (er enghraifft, os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopi, neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr), neu os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

## HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd* y mis nesaf cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

## CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd.* Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* (Gweler uchod)

## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato yn 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

## APEL *Y DINESYDD*

Mae pobl yn dal i anfon cyfraniadau i'r Apêl a dydy hi ddim yn rhy hwyr i chi anfon eich cyfraniad tuag at y Gronfa! Y cyfraniadau diweddaraf i ddod i law oedd oddi wrth Mair Robbins, yr Eglwys Newydd, Geraint W Griffith, Pontcanna, Gwyndaf a Mair Owen, Llandâf, a staff Ysgol Iolo, y Bontfaen - diolch i bawb.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 46** **Mawrth/Ebrill 2004**



**Ar Draws**

1. A oes brys di-ddiwedd ar lembo heb le yma? (6)
4. Dynes neu ddyn y môr (6)
9. Af a rhoi gât ar draws i greu rhwystr ar y ffordd (5)
10. Sain mynydd-dir fel sŵn clychau (6)
11. A yw glud a baw yn peri trafferth anadlu? (7)
12. Pen asyn mewn croen dafad yn cynrychioli ffrwythau'r gollen (4)
13. Glanhau bola ci gwyllt (6)
15. Parchu y degymu anwadal (6)
19. Ffeindio cywair mewn catrawd (4)
20. Amgylchu arch mewn gwae (7)
24. Dechrau bod yn awyddus ac eofn (7)
25. '____ ____ ____ trugareddau i gyd
Rhown foliant holl drigolon byd' (cyf H.H.) (1,3,1)
26. Pobi a dogni oddeutu diwedd Mai (6)
27. 'Mynych ym mrig yr hwyr, a mi yn unig,
Daw ___ am eich 'nabod chwi bob un' (Waldo) (6)

**I Lawr**

1. A yw hon yn dechrau beirniadu eisteddfodwr trist iawn? (4)
2. Pren y gwas anhrefnus (5)
3. O'r blawd daw'r caredig (7)
5. Tro y naw i gynhyrchu praidd (4)
6. Cân dyn coll yn y banc (7)
7. 'Rhyw newydd wyrth o'i angau drud
A ddaw o hyd i'r ____' (A.W.) (5)
8. Cadarnhau gweld yr hardd mewn aur di-ddiwedd (5)
11. Cwyd enfys o'r baw briw (3)
14. Ffedog i offeryn carpiog (7)
16. Daw drygioni i dir Dei efallai (7)
17. Gwau rhwydwaith allan o wisg wen (3)
18. Lliw yr Urdd yn colli ei phen wrth ddilyn yr afon (5)
19. Ys gwn i a oes annedd heb do a gwely yn Lloegr? (5)
21. 'Yr ____ ___ wywodd y rhos ar ei gwedd
A gwyn ydyw gynau bythynwyr y bedd' (W.J.) (4,1)
22. A oedd bwlch yn y tîm yma o Ffrainc? (4)
23. 'I'th ____ â diolch-gân ni awn,
Cyfodi'r llef i'r nef a wnawn' (cyf. J.H.) (4)

**Croesair Rhif 45**

**Ar draws:** 1. Pinacl; 4. Ysbonc; 9. Pydew; 10 Tafliad; 11. Rad; 12. Dodrefnyn; 13. Y groes a gwyd; 18. Awstralia; 21. Hir; 22. Trybini; 23. Hanes; 24. Neilltu; 25. Purdeb.

**I lawr:** 1. Papuro; 2. Nodedig; 3. Crwydro; 5. Safle; 6. Olion; 7. Cyduno; 8. Eto disglair; 14. SGlanhau; 15. Yn hynod; 16. Pastwn; 17. Preseb; 19. Swyddi; 20. Reiat.

Derbyniwyd 17 o gynigion a dwsin ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Henry Down, Pontcanna. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Grace Farthing, Heledd Hall, Margaret Harris, H.O.Hughes, Idwal Hughes, Eira Jones, Gethin Jones, Margaret Jones, Buddug Roberts, Dilys Pritchard-Jones a Delwyn Tibbott.

## LLONGYFARCHIADAU I …

… Llio Penri, Treganna, ar gychwyn swydd newydd fel Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Gymdeithas Adeiladu'r Principality.

…James a Sian Barr ar enedigaeth Gwen Sara yn Llundain ar y 13 Ionawr - wyres gyntaf i Ben a Sarah Barr, Rhiwbina.

… Esther Eckley, Grangetown, ar ei phenodiad fel Swyddog y Wasg a PR Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

… Rhys a Nia ar enediaeth eu mab Guto Bedwyr Lloyd Percy yn Ysbyty Llandochau ar y 22 Ionawr.

… i Lisa a Neville Graham (East Dulwich) ar enedigaeth bachgen bach, Harri, - ŵyr i Brian a Glenys Evans (Llysfaen).

… Sali a Christopher Morrisroe, Llysfaen, ar enedigaeth Matthew Gwyn ar Chwefror 12fed, ŵyr i Dilwyn a Marian Jones, Creigiau a Michael and Angela Morrisroe, Abbotskerswell.

… Sian a Gari Lewis ar enediaeth eu merch, chwaer fach i Zac, wyres i Cathrine ac Alun Jobbins.

… Richard a Carol Williams ar enedigaeth Rebecca Bethan ym mis Ionawr.

## CYDYMDEIMLO Â …

…theulu y diweddar Eluned Tudwal-Davies a fu farw ar y 15 o Ionawr. Bu'n byw yng Nghartre Cheshire, Dan y Bryn, a flynyddoedd lawer a bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys y Crwys lle y cynhaliwyd ei hangladd.

# CYMRY'R EGLWYS NEWYDD YN CODI ARIAN

Yn ôl yr arfer, bellach, cyngherddau gan Gôr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mrs Mair Robins) a chan Gôr Hamdden Caerdydd (Arweinydd: Mrs Eilonwy Jones) oedd cyfarfodydd Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd ar gyfer misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Da dweud i'r cyngherddau hynny godi £300 ar gyfer elusennau, £150 ar gyfer Apêl Arch Noa a £150 ar gyfer Apêl Ysbyty'r Felindre.

# CYRSIAU CYFRIFIADUR

Mae Cyngor Caerdydd yn trefnu cyrsiau cyfrifiadol i ddechreuwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cyrsiau yn cynnwys elfennau sylfaenol, gan gynnwys sut i droi cyfrifiadur ymlaen, sut i ddifodd, sut i 'neud pethe syml iawn fel creu dogfennau gan ddefnyddio pecyn prosesu geiriau safonol, sut i allbrintio ayb.

Cynhelir y cyrsiau yn Y Dome, Bryn Heulog, Pentwyn rhwng 1pm a 3pm bob dydd Mawrth o Ebrill 27, ac yn Llyfrgell Rhiwbeina rhwng 3.45pm a 5.45pm bob dydd Iau o Ebrill 22 am ddeg wythnos.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Dafydd Bridle (Tiwtor) 07779 565889 neu Evelyn Robinson (Swyddog Datblygu Cymraeg i Oedolion) 029 20 735226. Mae Dafydd ac Evelyn yn awyddus iawn i gynnig rhagor o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn rhagor o bynciau, felly os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am gyrsiau hoffech chi eu gweld - neu os ydych chi yn diwtor a hoffai ddysgu yn Gymraeg - rhowch alwad iddynt.

# DAWNSWYR NANTGARW AR GRWYDR I'R IWERDDON

Bydd Dawnswyr Nantgarw yn pacio'u bagiau unwaith eto'r mis nesaf, ac yn ei hel hi am Tralee yn Iwerddon, er mwyn cystadlu yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd. "Mae gennym dipyn o her o'n blaenau", yn ôl Cliff Jones, arweinydd y grŵp, "fe enillon ni'r gystadleuaeth grŵp dawnsio gwerin y tro diwetha i ni gystadlu yn yr Ŵyl, ddwy flynedd yn ôl, felly mae gofyn i ni fod ar flaenau'n traed o ddifrif!"

Wrth gwrs, dyw teithio'r byd ac ennill cystadlaethau'n ddim byd newydd i Ddawnswyr Nantgarw, sydd â record hir o gipio gwobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Maent hefyd wedi llwyddo ar lwyfannau rhyngwladol, yn Eisteddfod Gydwladol Llangollen ac yng Ngŵyl Ddawns Werin y Byd yn Palma, Mallorca, lle enillon nhw'r ail wobr yn y brif gystadleuaeth y llynedd. Ar ôl wynebu 46 o grwpiau gorau'r byd, yn cynnwys y Georgian State Dancers byd-enwog, roedd y dawnswyr o ardal Pontypridd wrth eu boddau eu bod wedi llwyddo i ddod ag un o'r gwobrau prin adref i Gymru.

"Roedd ennill yr ail wobr yn Palma yn brofiad anhygoel ac yn anrhydedd mawr i ni", medd Cliff Jones, "hon ydi prifwyl ryngwladol dawnsio gwerin, i bob pwrpas, ac mae pawb sy'n cystadlu o'r safon uchaf yn y byd. Roedd dod yn ail yn y fan honno yn golygu, fel y dwedodd un o'r beirniaid, ein bod wedi rhoi stamp Cymru ar y byd dawnsio gwerin heb os nac onibai."

Mae'r grŵp yn edrych ymlaen at y daith i Tralee, a fydd yn digwydd yr wythnos ar ôl y Pasg, gan fod yr Ŵyl Ban-Geltaidd yn achlysur mor arbennig. Mae'r cystadlu bob amser yn frwd ond yn gyfeillgar hefyd, ac fe fydd croeso twymgalon y Gwyddelod yn siŵr o fod yn goron ar y cyfan eleni.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn umuno â Dawnswyr Nantgarw gysylltu â Cliff Jones ar neu cliffaceirlys@tesco.net.



Dawnswyr Nantgarw ym Mallorca

## SI-LWLI

Mae'r daith o Gilgerran i Gaerdydd wedi bod yn un cyffrous i Nia Bowen. Ym 1994 dilynodd y chwaer anturus yma gwrs nyrsio am dair blynedd yn ysbyty'r Heath, ac fel llawer o'i chyfoedion ymgartrefodd yn y brifddinas wedi hynny. Cymraeg oedd iaith yr aelwyd, ac er nad oedd gan Nia unrhyw awydd i ddilyn gyrfoedd ei rhieni ym myd addysg, daeth tro ar fyd ym 2002 pan brynodd feithrinfa Si-lwli ar Heol Romily yn Nhreganna.

Er bod yna gynnydd aruthrol ym mhoblogrwydd addysg Gymraeg yn Ne Cymru, syndod yw hi i ddarganfod mai dim ond dwy feithrinfa Gymraeg sydd yn bodoli yng Nghaerdydd. Mae hyn ar fin newid fodd bynnag wrth i Nia fwrw ymlaen ag agor Si-lwli arall yn yr Eglwys Newydd. "Yn anffodus 'dwi'n gorfod troi plant i ffwrdd ar hyn o bryd oherwydd prinder lle" medd Nia "felly pan ddaeth y cyfle i mi brynu'r lleoliad yn yr Eglwys Newydd mi neidiais ar y cyfle."

Mi fydd y feithrinfa yn yr Eglwys Newydd yn estyniad o'r hyn sydd yn digwydd yn Nhreganna. Y gobaith yw bydd modd i rhieni sy'n teithio o'r cymoedd a'r gororau i'r ddinas i weithio yn medru defnyddio'r hwylustod yma gan ei bod mor agos i'r A470, ynghyd â'r rhieni yna sy'n chwilio am feithrinfa Gymraeg yng Nghaerdydd.

Am rhagor o fanylion cysylltwch â Nia Bowen, Si-lwli, 24 Park Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7BD, neu ffoniwch 029 20 626 720.

## CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA

Mae'r Cylch yn cyfarfod yn festri Capel Bethelym Maes-y-Deri, Rhiwbeina, a chyfrennir addysg feithrin i blant rhwng 2 ½ a 4 poed o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwn 9am a 12 o'r gloch. Am ragor o fanylion ffoniwch y Cylch Meithrin yn ystod oriau'r Cylch ar (029) 2052 1270 neu cysylltwch â Mrs Elin James ar (029 ) 2021 2673. Agorodd y Cylch ym 1959 felly mae'n 45 oed eleni!

## SEINIAU SYDD AR Y BRIG YN NEUADD DEWI SANT

Bydd rhai o enwau mwya'r byd mewn cerddoriaeth ac adloniant yn dod i Neuadd Dewi Sant, Caerdydd ym mis Ebrill a Mai. Bydd pop, roc, jazz a chanu'r felan ar ganol y llwyfan, gan gynnwys hen ffefrynau fel Joe Brown, Marty Wilde a Chris Rea.

Fe fydd yna ddigonedd o ddewis ar gyfer selogion cerddoriaeth glasurol hefyd gyda chyngherddau gan Gerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac ymysg hyn oll bydd sioeau i'r plant bach, nosweithiau o gomedi a bydd cerddoriaeth wreiddiau, werin a'r byd yn amlwg eu lle.

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen, ac i archebu'ch tocynnau ar lein, ewch i www.stdavidshallcardiff.co.uk - neu ffoniwch y swyddfa docynnau ar 029 2087 8444.

## CYNHADLEDD CYNGOR Y CELFYDDYDAU

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal ei Gynhadledd Flynyddol yn Llangollen ar Mai 12 a 13. Bydd y gynhadledd yn canolbwyntio ar ddathlu'r celfyddydau a phartneriaeth a bydd yn cynnwys sesiynau neilltuol i'r celfyddydau a'r angen cynyddol am gydweithio. Bydd y gynhadledd hefyd yn gyfle i gyfrannu i broses gynllunio CCC. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Chyngor y Celfyddydau, Rhadbost SWC 4901, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3NX.

## DYDDIADUR DIFYR

Mae'r Athro Meic Stephens, sydd wedi byw yn yr Eglwys Newydd er 1969, wedi cyhoeddi llyfr newydd A Semester in Zion. Mae'n disgrifio'r tymor a dreuliodd Meic ym Mhrifysgol Brigham Young ym Mhrovo, Utah, gwlad y Mormoniaid. Nid yw'n rhy hoff o Eglwys y Seintiau Diwethaf, ond roedd e'n edmygu rhai o'i haelodau.

Mae'r llyfr, sydd hefyd yn fath o hunangofiant, yn llawn storïau difyr am blentyndod Meic yn Nhrefforest, ei ddyddiau fel myfyriwr yn Aberystwyth, ei flynyddoedd fel aelod blaenllaw o Blaid Cymru ym Merthyr Tudful, ei gyfeillgarwch â llenorion megis Harri Webb a Glyn Jones, a llu o bethau eraill. Un o'r themau yw ei ymdrech i ddod o hyd i rieini ei dad yn Sir Faesyfed, gyda help DNA. Daeth Meic yn agos iawn at gipio'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd gyda phryddest ar yr un testun.

Ceir y stori'n llawn yn A Semester in Zion (Carreg Gwalch, £8.95) sydd ar werth yn Siop y Felin a Siop y Caban.

## PAPUR DYDDIOL CYMRAEG

Wyddoch chi mai Cymraeg yw un o'r ychydig ieithoedd lleiafrifol yn yr Undeb Ewropeaidd sydd heb bapur dyddiol yn yr iaith? Nid diffyg talent, ac yn sicr nid diffyg ymroddiad, ond diffyg buddsoddiad sy'n gyfrifol am y sefyllfa hyn a dyna pam mae ymgyrch wedi dechrau i ddod o hyd i ffynonellau cyllid a chymorthdaliadau i gyhoeddi papur fydd yn ymddangos pum gwaith yr wythnos yn hwyrach eleni neu yn 2005. Y bwriad yw cyhoeddi papur fydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ond bydd hefyd yn rhoi sylw i'r prif straeon rhyngwladol a Phrydeinig.

Os hoffech chi gyfrannu at y broses o sefydlu'r papur, neu os ydych chi yn ymroddedig i'r syniad o papur newydd dyddiol yn Gymaeg, gallwch ymuno â Chlwb Cefnogwyr, fydd yn troi'n Glwb Tanysgrifwyr, am £25. Am ragor o wybodaeth ewch at www.ybyd.com, neu gysylltwch â Dyddiol Cyf, Canolfan Mercator, Y Buarth, Aberystwyth, SY23 1NN.

## GWASANAETHAU'R UNDODIAID

Cynhelir gwasanaeth Cymraeg gyda'r Undodiaid, Llwyn Gorllewin, oddiar Heol Casnewydd pob ail Sul y mis yn y prynhawn am 3.15pm.

## LLYTHYR AT Y GOLYGYDD - Môr-ladron Cymreig

Annwyl Olygydd

Rwy'n ysgrifennu llyfr am fôr-ladron Cymreig. Tybed a oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr hanesion am fôr-ladron o'ch ardal chwi? Oes yna straeon am rai gafodd eu cipio gan fôr-ladron? Oes yna ogofâu môr-ladron acw? Neu drysor guddiwyd gan fôr-ladron? Oes yna feddau môr-ladron - neu rai laddwyd gan fôr-ladron - yn y fynwent leol? Oes yna straeon am bobl leol - yn arbennig sgweiriaid - yn ymhel â môr-ladron? Oes yna sôn am dwnneli'n rhedeg o'r traeth i blastai lleol?

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth sydd gennych.

Yn gywir iawn

Dafydd Meirion

7 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, Gwynedd LL54 6NG

Ffôn: 01286 881158, dafydd.meirion@cymru1.net

# Newyddion o'r Eglwysi

## Minny Street, Caerdydd

Bu nifer o'n plant a phobl ifanc, ynghyd â rhai ychydig yn hyn, yn mwynhau sglefrio yn Winter Wonderland ddechrau'r flwyddyn - daeth ambell i ddawn gudd i'r amlwg!

Wrth i'r cyfarfodydd misol ar weithiau celf barhau'n llwyddiannus, mentrwyd trefnu taith i Lundain, i'r Oriel Genedlaethol, i weld arddangosfa o waith El Greco - un o'r nifer artistiaid y mae ein Gweinidog wedi ein tywys i werthfawrogiad o'i waith.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i gyflwyno amrywiaeth o nosweithiau llwyddiannus a bendithiol ar ein cyfer. Ym mis Ionawr, trefnwyd tocynnau i fynd i weld cyflwyniad godidog Theatr Maldwyn, "ANN" a chafwyd Hawl i Holi cofiadwy dan gadeiryddiaeth Rhun ap Iorwerth - gydag Aled Edwards, Rhiannon Lloyd, Helen Prosser a Hugh Thomas ar y panel ateb.

Ddechrau Chwefror cafwyd noson arbennig arall wrth i Gymdeithas Eglwys Ebeneser ymuno â ni i rannu adloniant a lluniaeth - cyfle arbennig i'r ddwy eglwys rannu cymdeithas â'i gilydd. Ac i orffen y mis noson yng nghwmni Brynmor Jones, a ninnau, drwyddo ef, yn dod i adnabod ardal Cwm Tydu a theulu'r Cilie ychydig yn well.

## Eglwys y Crwys

Gyda throad y flwyddyn daeth tymor y Panto traddodiadol i'r theatrau a'r neuaddau cyhoeddus. Cyfnod o hwyl yn cymeriadu pobl afresymol yn gwisgo dillad afresymol yw hwn, llwyfan yn codi hwyl ar adeg pan yw noethni a llwydni y misoedd diliw yn gwahodd y felan.

Dyna yn fras a gafwyd gan Gymdeithas Ddrama y Crwys dros gyfnod o dridiau ar ddiwedd mis Ionawr. Diddanwyd cynulleidfaoedd niferus yng nghwmni Ella Jôs, Tony Tywysog, Ted Tei Tartan, Rene, Marg a Fferi Licwid ac eraill, gryn bum ar hugain ohonynt. Rhoddodd y cast o chwaraewyr amryddawn fodd i fyw o blant ac oedolion fel ei gilydd, ac fe'i cefnogwyd yn ddiarbed gan griw llwyfan ymroddedig. Ysgrifennwyd chynhyrchwyd y ddrama gan Betsan Evans.

Bu aeolodau Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa yr un mor ymroddedig yn cefnogi eu cyfarfodydd hwythau. Ddechrau'r flwyddyn cafwyd cyfarfod ar y cyd pan wahoddwyd y Parch Owain Llyr Evans i annerch y ddwy gymdeithas. Ymhellach ymlaen ym mis Ionawr a Chwefror cafwyd cyfarfodydd difyr a gwerthfawr yng nghwmni Dr Ann Lloyd-Jones, Mallt Anderson, David Jones, Arthur Bowen a Dr Hefin Jones.

Ddechrau'r nawdegau ffurfiwyd clwb teithio o fewn y capel. Mr Aled Evans a fu'n llywio'r teithiau dros y blynyddoedd. Dair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach mae e'n parhau i drefnu teithiau hynod o lwyddiannus. Ddiwedd Mis Bach aeth nifer o aelodau y capel a ffrindiau ar daith dridiau i ardal Caergrawnt tra bod trefniadau ar y gweill i ymweld â Dyffryn Loire yn Frainc ym mis Mehefin.

Mae'r grŵp Merched wedi cael tymor llwyddiannus iawn yng nghwmni ei gilydd ac o bryd i'w gilydd yng nghwmni gwraig neu ŵr gwadd. Dr Joan Williams fu'n annerch yng nghyfarfod mis Chwefror.

Bu'r Gymdeithas Ddiwylliannol hefyd yn weithgar yn ystod misoedd y gaeaf. Trefnwyd cyfarfod gweddi dechrau'r flwyddyn o dan ofal Mr Dan Bowen a'i deulu. Cafwyd cyfarfod gwerthfawr iawn ar y thema Y Teulu Mewn Cymdeithas. Ddiwedd mis Chwefror dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yng nghlwb golff Caerdydd.

## Tabernacl Caerdydd

**Genedigaethau**

Ganwyd Sara Mair, merch gyntaf i Gerallt a Mary Pritchard Jones a chwaer fach i Huw Gwyn. Tair wythnos yn ddiweddarach ganwyd Rhys John, sef ail fab i Lowri a Paul, ac yn gefnder i Sara a Huw. Pa ryfedd fod Eirlys a Gwyn yn gweld 2004 fel blwyddyn lawen gyda chymaint o le i ddiolch. Llongyfarchiadau i'r teulu cyfan.

Yn yr un modd, cyd-ddathlwn gyda Richard a Jean Davies yr Eglwys Newydd ar enedigaeth eu hwyres Anora Elizabeth Mair, merch i Philip ac Emma.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau i Sian Wyn Thomas a ei phenodiad i swydd ymwelydd ac ysgogydd Ysgolion Meithrin yng Nghaerdydd. Mae ganddi brofiad helaeth yn y maes ac mae'n sicr y bydd hi'r llwyddo i ysbrydoli to newydd o athrawon yn y maes pwysig hwn. Pob dymuniad da i'r dyfodol

**Taith y gweinidog i Zambia a De'r Affrig**

Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r gweinidog, Denzil John, wrth iddo fod yn un o bump yn cynrychioli eglwysi Prydain yn ymweld â'r ddwy wlad. Cyfrifoldeb y grŵp fydd estyn cefnogaeth i raglenni sy'n trin pobl â chlefyd AIDS, ac i gymell eglwysi'r gwledydd hyn i ddangos cefnogaeth gadarnhaol i'r teuluoedd. Dewch nôl yn ddiogel ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes.

**Yr Ysgol Sul**

Cynhaliwyd cyfarfod i ystyried anghenion a chyfeiriad yr ysgol Sul i'r dyfodol, ac fe benderfynwyd ar nifer o flaenoriaethau. Cytunodd Marc Jon Williams ac Eira Jones i weithredu fel arweinwyr ar ôl mis Medi, ac fe fydd Myfi Cosslett yn gweithredu dros weddill y flwyddyn ysgol hon. Bu Siân Williams yn rhoi cyfeiriad i lywio ystafell yr adran ifancaf, ac fe sefydlwyd grŵp yr arddegwyr o dan arweiniad Rob Nicholls. Cytunodd Rhodri Williams i fod yn gynullydd gweithgor adnoddau ac fe fydd pwyslais ar genhadaeth ymysg yr ifanc i'r dyfodol. Bydd Rhodri a Rhys ab Owen yn gweithredu fel trefnwyr llyfrgell adnoddau i'r dyfodol.

**Adnewyddu'r capel**

Buom yn disgwyl yn hir i glywed pryd byddai'r gwaith o lanhau'r capel yn cychwyn. Ni lwyddodd y cwmni yswiriant drefnu'r gwaith yn ystod mis Ionawr, ond fe gychwynnodd y gwaith ddechrau mis Chwefror. Dyfelir bydd hyn yn rhaglen waith o dri mis, ac fe fydd ardaloedd o dir y capel yn gofyn am hetiau caled. Bydd y gweithlu yn cael defnydd blaen y capel a rhan o'r maes parcio yn y cefn hefyd i storio defnyddiau. Pwysir ar aelodau ac ymwelwyr i beidio parcio ceir mewn mannau a fydd yn creu rhwystr na cherdded drwy'r capel heb ganiatâd y goruchwylwyr.

**Côr yr Eglwys.**

Dechreuodd y côr ar eu gwaith o ddysgu St Cecilia's Mass gan Gounod. Mae croeso i gantorion newydd ymuno gyda'r côr, ac mi fyddai'n ddoeth cael sgwrs gydag Euros Rhys neu Illtyd Lloyd er mwyn sicrhau copïau.

## Bethel, Rhiwbina

Roedd y capel yn orlawn ar gyfer Cyngerdd gan aelodau Aelwyd CF1, 16 Chwefror. Trefnwyd y cyngerdd gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina a chafwyd noson i'w chofio.

Ail-ddechreuwyd y cyfarfodydd ar foreau Mawrth. Testun sgyrsiau'r Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan, y tymor hwn yw ei hoff ddarlleniadau o'r Beibl. Mae croeso cynnes i bawb.

Rydym yn dymuno adferiad buan i Mrs Olwen Davies wedi iddi gael llawdriniaeth i'w llygaid. Ac i Miss Margaret Turner sydd hefyd yn cael problem gyda'r golwg.

## Rhagor o Newyddion o'r Eglwysi

### Salem, Treganna

Colled enfawr i ni yn Salem oedd y newyddion trist am farwolaeth Mr a Mrs Tom Evans, a fu farw 2 ddiwrnod oddi wrth ei gilydd ddiwedd Rhagfyr. Bu Mr Tom Evans yn flaenor yn Salem ers dros hanner canrif, ac fe fu'r ddau yn asgwrn cefn i Salem dros y blynyddoedd. Mae ein dyled iddynt yn enfawr - oherwydd eu hymrwymiad i barhad Salem trwy gyfnodau anodd y mae'r Eglwys yn ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain. Roeddent yn rhai o'r ychydig a wnaeth sicrhau parhad Salem trwy gyfnodau anodd. Bydd colled ar ôl aelodau mor annwyl. Bu Mrs Evans erioed yn barod ei chymwynas ac roedd yn ofalus iawn o'i gŵr a'i theulu. Cydymdeimlwn yn fawr a Mair a Lynn, a'u hwyrion, Huw a Nia. Mawr fu eu gofal ohonynt.

Dyma benillion a ddarllenwyd yn yr angladd sy'n crynhoi pob peth am Mr Tom Evans:

Dy' Sul, dan bulpud Salem
Gwas selog yw, a sawl gem
O waddol ei gyhoeddi
'Gyfoethoga'n hoedfa ni.
A gwres ei groeso grasol
A'n dena ni yma 'nôl.

Dod â'i fflam o Gwmaman
At ei waith 'da'r Frigad Dan -
Dwyn dawn saer coed i'n dinas.
Yna 'mlaen â'i grefft ym mhlas
Sain Ffagan, i greu hanes
Dod â'n doe a'n hechdoe'n nes.

Miwsic meistri cerdd, a mawl
Cyhyrog ganu corawl,
Gweddi o'r frest, a thestun,
Profi cyd-dorri cytun,
A rydd i'w grefydd y gras
'Wna ei Salem yn solas.

**T. James Jones**

#### Bedyddiadau

Bedyddiwyd Caeo Pryce, mab Iwan a Iola Pryce ym mis Ionawr, ac Arfon, mab Aled a Carys Williams ym mis Chwefror. Dymunwn yn dda iddynt a'u teuluoedd a llongyfarchiadau mawr iddynt.

#### Gwasanaeth Derbyn

Gwych oedd derbyn 4 o ieuenctid yr Eglwys yn lawn aelodau mewn gwasanaeth arbennig Sul cyntaf Chwefror, sef Rhys Meggy, Gethin Thomas, Elen Hughes ac Owain Hughes. Cawsom oedfa hyfryd.

#### Prynhawn Chwaraeon

Cynhaliwyd prynhawn o chwaraeon yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed yn ystod mis Chwefror. Daeth dros 70 i chwarae amrywiaeth o chwaraeon ac i fwynhau. Cawsom amser wrth ein boddau!

#### CIS

Bu CIS yn y Bingo yn ddiweddar. Cafwyd noson o hwyl - a rhai'n fwy llwyddiannus na'i gilydd!

#### Y Gadwyn

Cynhaliwyd noson lwyddiannus o gwis ym mis Ionawr.

## DWEUD EICH DWEUD AM LYFRGELLOEDD CAERDYDD

Mae gan llyfrgelloedd cyhoeddus rôl bwysig wrth adfywio a chodi proffil dinas. Mae gan Caerdydd eisioes dreftadaeth gyfoethog o lyfrgelloedd yng nghanol y ddinas ac ardaloedd pellach.

Er hynny, mae angen i wasanaeth llyfrgelloedd yr 21fed ganrif adnabod anghenion ei gwsmeriaid ac addasu er mwyn bodloni'r anghenion hynny. Cydnabyddir hyn mewn adroddiad diweddar a ddywed y gall llyfrgelloedd ar draws y DU arwain at ddirywiad terfynol onibai eu bod yn dysgu cyfuno gwybodaeth, dysgu a hamdden, a bod yn fwy deniadol i'w defnyddwyr cyfoes a'u darpar ddefnyddwyr ill dau.




Mae adroddiad pellach er hynny yn cydnabod bod "llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu hailddyfeisio. Ystyrir hwy fwyfwy fel man a rennir mewn cymdeithas mwyfwy amrywiol, lle gall y gymuned gyfan deimlo'n rhan. Maent hefyd yn darparu cyswllt allweddol ar gyfer ein dyfodol digidol." Dyma'r weledigaeth a hoffai'r Cyngor rannu a phobl Caerdydd, i'ch galluogi chi i ddweud eich dweud am rôl Llyfrgelloedd Caerdydd yn yr 21fed ganrif.

Mae'r Papur Gwyrdd Llyfrgelloedd 21fed Ganrif yng Nghaerdydd ar y we (www.caerdydd.gov.uk/libraries) ac ar gael mewn pob llyfrgell yn y Ddinas. Os hoffech gynnig sylwadau am y Papur Gwyrdd, anfonwch eich sylwadau ysgrifenedig i: Swyddfa'r Cabinet, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Fel arall gallwch e-bostio eich sylwadau i: cabinetoffice@cardiff.gov.uk

Le gallois
Y Cymro
6-8 Romilly Crescent, Canton, Caerdydd CF11 9NR
Ffôn: 02920 341264 Ffacs: 02920 237911
info@legallois-ycymro.com
*Dewch i flasu bwyd a gwin wedi ei baratoi*
*a'i weini gan y teulu Jones a Dupuy*
Ewch am dro i weld y wledd ar ein safle:
www.legallois-ycymro.com

# YSGOL GLANTAF

### Taith Blwyddyn 7 i Sain Ffagan

Trefnwyd ymweliad i flwyddyn 7 i Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan ar ddydd Gwener y 13eg o Chwefror. Pwrpas yr ymweliad oedd hybu Cymreictod yn ogystal â chefnogi'r thema o "Ysgol ac Addysg yn y Gorffennol" a astudir ar hyn o bryd yn y gwersi Cymraeg.

Cafwyd diwrnod bendigedig yn ymweld ag amryw o adeiladau diddorol gan gynnwys y Pentref Celtaidd, Tŷ'r Dyfodol, Tai Rhyd-y-car i enwi dim ond rhai. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu a chofnodi gwybodaeth yn yr Helfa Drysor a baratowyd gan Miss Bethan Thomas. Cafodd rhai gyfle i goginio uwchben tân agored yn y Pentref Celtaidd ac eraill i ddefnyddio ysgrifbinnau ac inc yn yr ysgol.

Diwrnod gwych a bythgofiadwy! Edrychir ymlaen yn fawr at fynd eto'r flwyddyn nesaf!

### Chwaraeon

Bu'n gyfnod prysur a llwyddiannus iawn ym myd y campau y tymor hwn gyda nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn cyrraedd safon uchel iawn yn eu maes.

Jamie Roberts (bl12) a Mathew Mclean (bl13) - Tîm Rygbi Cymru dan 18
Siân Burgess / Kylie Powell / Miriam Turner (bl11) - Tîm Hoci'r Sir dan 16
Gwen Nicol (bl12) - Tîm Hoci'r Sir a Thîm Hoci Ysgolion De Cymru dan 18
Luke Bafico (bl8) - Pencampwr Gymnasteg y Sir
Manon Williams (bl7) - Rhedeg Traws Gwlad i Ysgolion Caerdydd a'r Fro
Siân Houdmont (bl10) - Tîm Badminton Cymru
Rhian Lye (bl11) - Carfan Pêl-rwyd Cymru dan 16 a Charfan y Sir
Laura Bennett (bl9) - Carfan Pêl-rwyd y sir dan 14
Kate Davies / Laura Shanahan (bl10) - Carfan Pêl-rwyd y Sir dan 16
Mekeley Carey (bl12) - Carfan Pêl-rwyd y Sir dan 18.
Llongyfarchiadau iddynt oll!

Llongyfarchiadau hefyd i Gwen Jones o flwyddyn 13 am gael ei gwahodd yn ôl am ail gyfweliad i Ysgol Ddawns Gyfoes, Llundain.

### Cystadleuaeth Nofio'r Urdd

Ddiwedd Mis Ionawr cynhaliwyd cystadleuaeth Cenedlaethol Nofio'r Urdd yn Abertawe. Cynrychiolodd y canlynol Dde Morgannwg:-

Blwyddyn 8 - Rebecca Evans a Sonya Carre
Blwyddyn 12 - Daniel Rossiter (Medal Arian ac Efydd)
Blwyddyn 13 - Selyf Shapey
Llongyfarchiadau!



### TLWS PENCAMPWRIAETH 6 GWLAD RBS MEWN YSGOL YNG NGHAERDYDD

Ar 29 Ionawr 2004 rhoddwyd cyfle arbennig i ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf weld Tlws Pencampwriaeth 6 Gwlad RBS a chwrdd â'r arwr rygbi Ieuan Evans fel rhan o Daith y Tlws ledled y DU i gofnodi dyfodiad y gemau rygbi.

Y mae Ysgol Gyfun Glantaf yn falch dros ben o'u cysylltiad â'r gêm, ac mae tîm rygbi yr ysgol yn dangos llawer o addewid. Maen nhw'n bwriadu mynd â charfan o 50 disgybl i Awstralia y flwyddyn nesaf a chwarae gemau cyfeillgar gydag ysgolion eraill yn nhaleithiau Melbourne, Sydney a Brisbane.

Roedd ymweliad y tlws â Chaerdydd yn rhan o Daith y Tlws 15 diwrnod i roi rhagflas o'r Bencampwriaeth eleni. Dyma'r ail o dair blynedd i Grŵp The Royal Bank of Scotland, sy'n cynnwys NatWest, noddi twrnamaint Pencampwriaeth 6 Gwlad RBS.

Yn y llun o'r chwith: disgyblion blwyddyn 10, Daniel Phillips, Dafydd Pierce Evans, Jason Harding, Ifan Patchell a Siôn James, gydag Ieuan Evans a Deb Goddard, Rheolwr Cynorthwyol NatWest yn yr Eglwys Newydd.

GWRES GWYN
Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?
Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones
Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209
82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd
07974 80 30 89
gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

TRYDANWR
gyda dros 20 mlynedd o brofiad
Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd
*Prisiau Rhesymol*
Ffoniwch
Caerwyn Davies
ar 029 20868208
neu 07967 558664

# YSGOL BRO MORGANNWG



Enillwyr cystadleuaeth y Gymanwlad

## LLWYDDIANT YN SAESNEG

Llongyfarchiadau i chwech o ddisgyblion Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, a dderbyniodd glod yn ddiweddar yng Nghystadleuaeth Ysgrifennu Traethawd y Gymanwlad, cystadleuaeth a ddenodd dros 5,000 o ymgeiswyr o 54 gwlad.

Daeth Hannah Gunning o Flwyddyn 8 yn ail yn ei chategori oedran, gyda thraethawd ar y pwnc "Where I would most like to live". Dewisodd ysgrifennu am Awstralia, yn dilyn ymweliad teuluol â'r wlad.

Derbyniodd Anna Carling o Flwyddyn 9 Gymeradwyaeth Uchel am ei thraethawd, and rhoddwyd Cymeradwyaeth i bedwar disgybl arall: Jessica Chick (Bl.8) ac Elena Cresci, Morganne Buckingham a Charles Pagler (Bl. 10).

Mae llwyddiant y disgyblion yn y gystadleuaeth ryngwladol hon yn dyst i safon Adran Saesneg yr ysgol, ac yr ydym yn falch ohonynt i gyd.

Cafwyd tystiolaeth bellach o ragoriaeth disgyblion addysg cyfrwng Cymraeg yn yr iaith fain pan ddaeth tim dadlau'r Adran Saesneg i'r brig yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Clwb Rotari Bro Morgannwg. Taclodd y Cadeirydd Benji Mallett-Williams, y Cynigydd Elena Cresci a'r Gwrthwynebydd Laura Best y pwnc llosg "Smoking should be banned in public places" gydag arddeliad, ac mae'n amlwg fod y beirniaid wedi'u plesio gyda'u sgiliau dadlau, gan iddynt guro nifer o dimau profiadol o ysgolion cyfrwng Saesneg. Enillodd y tîm y cyfle i fynd ymlaen i'r rownd nesaf, yn Nhrefforest ddiwedd y mis. Pob lwc iddyn nhw!

## PROFIAD GWAITH BLWYDDYN 10

- gan Huw Lewis 10G

Yn ddiweddar bu nifer o ddisgyblion blwyddyn deg ar wythnos o brofiad gwaith. Cawsom gyfle i fynychu lleoliadau o bob lliw a llun yn amrywio o siopau dillad a cherddoriaeth lleol i'r cynulliad cenedlaethol, ac o gwmnïau cynhyrchu teledu i swyddfeydd prysur.

I'n paratoi ar gyfer ein blas cyntaf o'r byd go iawn, bu'r disgyblion yn cael ein cynghori gan wasanaeth Gyrfaoedd Cymru a gynhaliodd ddiwrnodau arbennig yn yr ysgol i roi cymorth inni. Rhai o'r gweithgareddau hynny yn yr ysgol oedd seminar ar gyfweliadau a gwersi ar gyflwyniadau personol.

Bu'r profiad yn agoriad llygad i lawer ohonom. Dywedodd Osian Lewis, 10.G.: "Rwyf wedi mwynhau yr wythnos...mae wedi bod yn ddiddorol gweld pa mor wahanol yw'r byd gwaith a'r byd addysg". Rwy'n credu ei bod wedi gwneud i ni werthfawrogi'r ysgol hyd yn oed yn fwy nag o'r blaen!

## YN ÔL I'R GORFFENNOL YM MLAENAFON

- gan Michelle Ritter a Marged Hall 9 MOG1

*Dyma hanes trip cyffrous diweddar Blwyddyn 9 i Bwll Mawr.*

Roedd pawb ar bigau'r drain i gyrraedd Blaenafon ac ar ôl awr o deithio ar y bws, roedd cyffro anferth wrth i Bwll Mawr ymddangos o'r diwedd!

Ar ôl i ni gyrraedd, dosbarthwyd helmed a golau i bawb. Yn raddol, grŵp ar ôl grŵp, diflannon ni i lawr i'r tywyllwch pur. Roedd hi'n teimlo fel petawn ni wedi cael ein trosglwyddo yn ôl i'r cyfnod diwydiannol wrth i ni grwydro trwy'r pyllau unig. Teimlad anghredadwy oedd hi wrth feddwl a dychmygu'r holl bobl a orfodwyd i lafurio am oriau di-ddiwedd yn union lle roedden ni'n sefyll.

Dysgon ni lawer am fywyd glöwyr y cyfnod, a mwynhau ein hunain yn fawr iawn ar yr un pryd. Diolch yn fawr i Bwll Mawr am ddiwrnod mor arbennig, ac i'r Adran Hanes hefyd am drefnu'r daith.

# YSGOL Y WERN

## CANTORION O FRI

Llongyfarchiadau i gôr Ysgol y Wern a'i harweinydd Mrs Mair Long ar eu llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf am gyfansoddi carol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y rhaglen deledu 'P'nawn Da' ar S4C digidol. Derbyniodd y côr ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid am y garol 'Y Baban ym Methlehem.'

Gwelwyd y côr yn perfformio y garol fuddugol ar y rhaglen 'P'nawn Da' cyn y Nadolig. Yn y stiwdio derbyniodd Mrs Mair Long darian ynghyd â £200 at gyllid yr ysgol.



Llun: Côr Ysgol y Wern

### Gweithgareddau Gŵyl Ddewi Menter Caerdydd

Cafwyd wythnos lwyddiannus dros ben adeg Gŵyl Ddewi eleni. Roedd llond lle o weithgareddau wedi'u trefnu a channoedd o bobl wedi dod ynghyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Yn ystod yr wythnos cynhaliwyd nifer fawr o weithgareddau - dosbarthu balŵns yn Tesco Extra ac yn Asda; noson yng nghwmni CF1 a chawl am ddim i bawb yn y Mochyn Du, perfformiad o'r cynhyrchiad 'Syth o'r Nyth', noson yng nghwmni'r beirdd mewn bar- Ceri Wyn Jones, Tudur Dylan ac Emyr Davies, a diwrnod o hwyl i'r plant meithrin yng nghwmni Martyn Geraint a Nia o Ribidires!!

Yn ogystal â'r holl weithgareddau, dosbarthwyd miloedd o bosteri cyfarch o amgylch y ddinas - Diolch i'r holl fusnesau a chartrefi am arddangos y posteri yn y ffenstri!

Diolch hefyd i bawb a gefnogodd ein dathliadau Gŵyl Ddewi a gobeithio wir y gallwn ehangu ar y gweithgareddau yn 2005!!



Daeth tyrfa fawr o blant meithrin i ddathlu yng nghwmni Martyn Geraint a Nia o Ribidires!



Côr CF1 yn diddanu'r cannoedd a ddaeth i'r Mochyn Du ar Ddydd Gŵyl Dewi

### Cwis Menter Caerdydd

Nos Wener, Ebrill yr 2il fe fyddwn yn cynnal cwis yng Nghlwb Criced Morgannawg.
Beth am drefnu tîm o'r gwaith neu cael criw o ffrindiau ynghyd?!
Keith Davies, BBC fydd y cwisfeitsr, felly mae'n argoeli i fod yn noson dda?!!
Am fanylion pellach, cysylltwch ag Angharad yn swyddfa'r Fenter ar 029 20 56 56 58 neu ebostiwch angharad@mentercaerdydd.org

## GWYLIAU CYMRAEG.COM

Mae Mentrau Iaith Gwynedd a Chonwy wedi dechrau cynllun cyffrous newydd, sef y Cynllyn Gwyliau Cymraeg. Bwriad y Cynllun yw hyrwyddo traddodiad cyfoethog diwylliannol a harddwch naturiol ardaloedd Gwynedd a Chonwy fel atyniad twristiaeth i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg. I ddysgwyr yn arbennig y mae'n cynnig cyfle i ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa naturiol tu allan i ffiniau dosbarth.

Mae'r Mentrau wedi cynhyrchu taflen o lefydd aros, bwytai, atyniadau twristiaeth ac ati lle y siaredir Cymraeg. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Menter Iaith Gwynedd, 38 Stryd Fawr, Caernarfon, LL55 1RH, ffon 01286 674112 neu gwyliaucymraeg@cymad.org, neu ewch at y we i www.gwyliaucymraeg.com.

## RADIO CYMRU YM MHOB MAN!

A wnaethoch chi golli'r ddrama afaelgar 'na ar Radio Cymru? Neu a hoffech glywed drosoch eich hunain ryw gyfweliad pwysig ar Llinyn Mesur? Neu oes gennych awydd i wrando eto ar hen ffefryn o gân o raglen Ar Eich Cais?

Wel, mae modd gwneud y cyfan, achos mae safle "Radio-ar-alw" arlein bellach yn fyw ar gyfer Radio Cymru. Drwy'r safle hwn y mae modd defnyddio eich cyfrifiadur personol er mwyn gwrando ar 35 o raglenni rheolaidd Radio Cymru ar eich cais.

Bydd y rhaglenni wythnosol yn aros ar y safle am wythnos tan i'r rhifyn nesaf eu disodli. Bydd rhaglenni dyddiol yn aros am ddiwrnod, ac eithrio ar ddydd Gwener, pryd y byddan nhw'n aros dros y penwythnos tan ddydd Llun. Gallwch ddod o hyd i'r safle yn http://www.bbc.co.uk/radio/aod/radiocymru.shtml.

Y gwasanaeth newydd hwn yw'r ychwanegiad diweddaraf i BBC Cymru'r Byd, gwasanaeth arlein Cymraeg BBC, sydd ar gael o http://www.bbc.co.uk/cymru/ Hefyd, ceir y storïau newyddion Cymraeg diweddaraf ar ffurf testun ar ffonau symudol drwy ddefnyddio'r gwasanaeth WAP. Ewch i http://www.bbc.co.uk/cymru/gwasanaethau/wap.shtml am fwy o wybodaeth am hyn.

Mae Radio Cymru wedi symyd i'r oes digidol hefyd. Yn ogystal â chael ei ddarlledu drwy gyfrwng radio digidol, os oes teledu digidol ntl fe gewch y newyddion, y tywydd a chwaraeon i gyd yn Gymraeg ar ffurf gwasanaeth testun. Ceir y manylion yma: http://www.bbc.co.uk/cymru/gwasanaethau/testun.shtml

Ac mae Radio Cymru bellach ar gael, nid yn unig ar y radio ac ar y we, ond hefyd trwy Ewrop ar deledu lloeren, ar sianel 904. Hefyd, os oes gennych wasanaeth Freeview, mae Radio Cymru ar gael ar sianel 90. Ac ar wasanaeth cêbl digidol ntl mae Radio Cymru ar sianel 897.

Does dim esgus dros golli eich hoff raglen!

## APEL AM GEFNOGAETH

Mae Ymgyrch Ysgol Gymunedol Hermon yn apelio am gefnogaeth i atal Awdurdod Lleol Sir Benfro rhag cau yr ysgol erbyn mis Awst eleni. Maent yn gobeithio denu cymorth ariannol o bob cwr o Gymru i gyfrannu at y costau cyfreithiol, gall fod gymaint â £60,000 os nad yw'r ymgyrch yn llwyddiannus. Os hoffech chi helpu danfonwch eich cyfraniad at Y Trysorydd yn Pantyrysgol, Hermon, Y Glog, Sir Benfro, SA36 0DT - gwerthfawrogir pob cyfraniad.

## APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CASNEWYDD

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Mharc Tredegar ar gyfion Casnewydd, ac mae'r Pwyllgor Gwaith yn gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant ariannol yn ogystal â diwylliannol yr Ŵyl. Apelir at bawb i gefnogi eu hymdrechion yn ymarferol gan fod cyn lleied o Gymry Cymraeg yn byw yno. Felly, beth am drefnu Bore Goffi neu gyngerdd, neu noson Gaws a Gwin i roi hwb i ymdrechion ein cymdogion i sicrhau y ceir Eisteddfod deilwng.

Os na ellwch drefnu gweithgaredd beth am anfon cyfraniad ariannol i Swyddfa'r Eisteddfod, 33 Stryd y Bont, Casnewydd, NP20 4BH, a gwneud eich sieciau yn daladwy i "Eisteddfod Casnewydd a'r Cylch". Diolch ymlaen llaw am bob cymorth.

### HWYL YN Y BAE

Bydd digonedd o adloniant i'r teulu yn digwydd yn y Bae dros Wyliau Banc y gwanwyn - a hyn oll yn rhad ac am ddim!

Ddydd Sul 11 a dydd Llun 12 Ebril, o 12.30 tan 5.30 bydd digwyddiadau'r Pasg yn cael eu cynnal yn Roald Dahl Plass a Chei'r Forforwyn, gan gynnwys gweithdai crefft, a bydd mwy o weithdai i'r plant ar ddydd Sul 2 a dydd Llun 3 Mai. Ac ar ddiwedd mis Mai, ar ddydd Sul 30 a dydd Llun 31 Mai bydd marchnad Ffrengig a dawnswyr o bob cwr o'r byd - gan gynnwys Cymru, wrth gwrs, yn digwydd ar y glannau.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch ganolfan gyswllt y Cyngor, C2C, ar (029) 2087 2088.

### YN GALW CYN-FYFYRWYR Y COLEG NORMAL

Yn dilyn gwahoddiad cyhoeddus yn 2003 anfonodd nifer fawr o gyn-fyfyrwyr, staff a phobl eraill ddeunydd, gan gynnwys lluniau a dogfennau, at y Coleg fel rhan o'i ymgyrch i gyhoeddi hanes y Coleg. Mae'r Coleg nawr yn ystyried cyhoeddi casgliad o luniau ar wahân ac mae'n awyddus i dderbyn lluniau ychwanegol ynghyd â sylwadau byr.

Dylech anfon eich cyfraniad at Yr Athro Gareth Roberts, Ysgol Addysg, Safle'r Normal, Bangor, LL57 2PX. Dylid nodi a yw'r lluniau ar fenthyg dros dro, neu a ydynt i'w cadw a'u trosglwyddo yn y man i archifdy'r Brifysgol. Cydnabyddir cyfraniad unigolion mewn unrhyw gyhoeddiad.

### RHAGOR O GYRSIAU ...

Mae Coleg Harlech wedi cyhoeddi ei rhaglen o gyrsiau preswyl i oedolion ar gyfer 2004. Ymysg y cyrsiau sydd ar gael eleni mae Cyflwyniad i Ygrifennu Nofelau Hir, Ysgrifennu Barddoniaeth, Dyddio a Diogelu eich Hen Ffotograffau a Pherfformio a Chyflwyno Cynyrchiadau. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01766 781900 neu ewch i www.harlech.ac.uk.

### DYDDIADUR Y LOLFA

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar gyfeiriadur Dyddiaduron 2005 Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur wedi datblygu i fod yn ffynhonell gynhwysfawr o wybodaeth am sefydliadau, cymdeithasau a busnesau Cymreig. Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am sefydliad newydd yn Nyddiadur 2005 mae croeso i chi cysylltu â'r wasg. Maent hefyd yn awyddus i ddiweddaru unrhyw newidiadau neu wallau.

Cysylltwch drwy ddanfon e-bost at dyddiaduron@ylolfa.com neu ysgrifennwch at Garmon Gruffudd, Y Lolfa, Talybont, Ceredigion, SY24 5AP

### GŴYL GERDD DANT ABERYSTWYTH 2003



Martha Holeyman

Llongyfarchiadau i Martha Holeyman, 11 oed o Benarth, am ddod yn drydyddar yr Unawd Telyn dan 16 oed yn Ŵyl Gerdd Dant Aberystwyth. Bu grŵp Telynau'r Plas o Ysgol Gyfun Plasmawr yn llwyddiannus hefyd - enillwyd y drydedd wobr gan Elin Rees a Gwen Holeyman o Benarth, a Nanw Williams ac Eirian Xerri o Gaerdydd, a hyfforddwyd y telynorion gan Eluned Scourfield.

### APWYNTIAD YN Y BAE

Brodor o Sir y Fflint ydy Dr Alun Owens a benodwyd yn Gyfarwyddwr Canolfan yr Urdd yn Nghanolfan y Mileniwm yn y Bae. Ar hyn o bryd mae'n bennaeth Gwersyll yr Urdd Glanllyn, ond dydy e ddim yn ddieithr yn Nghaerdydd gan iddo astudio Cemeg yma yng Ngholeg y Brifysgol, a felly ei groesawu'n ôl ydym ni mewn gwirionedd. Bu'n aelod brwd o'r Urdd ers dyddiau ysgol a threuliodd lawer o'i wyliau yn cynorthwyo yn Ngwersylloedd yr Urdd. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

### GALW AM GANTORION

Mae Côr Philharmonig Caerdydd yn chwilio am gantorion ar gyfer pob llais, ond yn enwedig tenoriaid a baswyr. Mae'r Côr yn cwrdd bob nos Fercher am 7.30 yn Neuadd y Brifysgol, Heol Corbett yn ystod tymor ysgol yn unig ac yn cynnal cyngherddau ddwywaith y flwyddyn. Does dim angen y gallu i ddarllen cerddoriaeth yn berffaith ond byddai clust dda yn fantais fawr!

Mae'r Côr wrthi'n ymarfer gweithiau gan Haydn a Faure ar gyfer cyngerdd ar Fai 1af, felly os am ragor o wybodaeth ffoniwch 029 2062 779.

### NEGES IECHYD DA I FERCHED

Anogir merched i hybu eu hiechyd yn 2004 trwy fynychu profion sgrinio am ddim. Er bod y nifer o bobl sy'n cael profion sgrinio yn dda yng Nghymru yn gyffredinol, mae Bron Brawf Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru yn awyddus i ddenu'r merched hynny sydd ddim wedi mynychu prawf hyd yma i wneud. Dengys ymchwil bod sgrinio ar gyfer canser y fron, ynghyd â thriniaethau a chyffuriau newydd, wedi cyfrannu at ostyngiadau o draean yn nifer y marwolaethau o'r clefyd yn ystod y degawd diwethaf ac mae fyrdd newydd yn cael eu datblygu i wneud sgrinio serfigol yn fwy effeithiol fyth.

Am ragor o wybodaeth am y rhaglenni sgrinio cysylltwch â Bron Brawf Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru ar 029 2078 7800 neu ewch at www.velindre-tr.wales.nhs.uk/btw.

## HOFFECH CHI HELPU?

Tîm bach o wirfoddolwyr sydd yn cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd* bob mis, ond rydym wastad yn croesawu pobl newydd i helpu gyda'r gwaith. Os gallwch chi gynnig unrhyw help, yn enwedig o ran golygu neu ddosbarthu'r papur, neu hel hysbysebion, beth am gysylltu â'r Cadeirydd ar 029-2062-8754 neu drwy e-bost at JamesEW@caerdydd.ac.uk?

## CALENDR Y DINESYDD

**Mawrth, 23 Mawrth**
Cyfarfod cyhoeddus i drafod y posibilrwydd o gynnal Eisteddfod Genedlaethol 2008 yng Nghaerdydd, yn Stadiwm y Mileniwm am 7.30 p.m.

**Iau, 25 Mawrth**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays: Darlith gan Dr E. Wyn James, 'Mary Jones a'i Thaith i'r Bala', am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 27 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Sir Uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr am 9.00 a.m.

**Sadwrn, 27 Mawrth**
Urdd Gobaith Cymru: Eisteddfod Aelwydydd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am 9.00 a.m.

**Mawrth, 30 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: 'Mae 'na stori fan hyn!', yng nghwmni Iorwerth Morgan, Dyrinos Thomas ac Elwyn Huws, yn Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 2 Ebrill**
Cymrodorion Caerdydd: Ymweliad Cymrodorion y Barri â Chymrodorion Caerdydd, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.15 p.m.

**Llun, 5 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Gwestai: Siân Thomas. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 029-2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Gwener, 9 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant am 2 p.m. Pregethwr: Parch. Gethin Rhys.

**Llun, 19 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Noson - Ni!', yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Mercher, 21 Ebrill**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Cyfarfod Blynyddol, am 7.00 p.m.

**Sul, 25 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu dan arweiniad Emyr Roberts, yn Beulah, Rhiwbina, am 8.00 p.m. Organydd: Dr Alun Jones. Cenir gan Gôr Plant Ysgol y Wern.

**Mawrth, 27 Ebrill**
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith Goffa G. J. Williams. Darlith gan yr Athro Ceri Davies (Abertawe) ar y testun 'Lladinwyr y Dadeni ac Urddas y Gymraeg' yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m

**Sadwrn, 1 Mai**
Côr Philharmonig Caerdydd: Cyngerdd yn Neuadd Gerdd y Brifysgol, Corbett Rd., am 7.30 p.m.

**Iau, 6 Mai**
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Noson agored i bobl a chanddynt ddiddordeb mewn astudio (rhan amser neu amser llawn) ar gyfer gradd uwch (MA, MPhil, PhD) yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth neu mewn astudiaethau gwerin. Yn Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd rhwng 7 p.m a 9 p.m. Manylion pellach: 029-2087-4843.

**Gwener, 7 Mai**
Cylch Cadwgan: Allan James yn siarad ar y testun 'Diwylliant Gwerin Morgannwg' yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf am 8 p.m. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi.

**Llun, 10 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Allan i De.' Manylion pellach: 2048-6463.

**Llun, 10 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 029-2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Iau, 13 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Stori, Ffilm a Chân.' Oedfa dan ofal Cristnogion yn Erbyn Poenydio, yn Salem, Treganna, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 15 Mai**
Cymrodorion Caerdydd: Y Daith Flynyddol, dan arweiniad yr Athro J. Gwynfor Jones. Manylion pellach: 029-2069-4667.

**Llun, 17 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Enwau Lleoedd.' Sgwrs gan yr Athro Gwynedd Pierce, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 18 Mai**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd, Heulwen Cooper, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Sadwrn, 22 Mai**
Ysgol Undydd Hanes Cymru, Prifysgol Caerdydd: 'Agweddau ar Grefydd a Chymdeithas yn Hanes Cymru Fodern.' Traddodir darlithiau gan Dr Eryn White, Llion Roberts, Dr Ioan Matthews a'r Athro J. Gwynfor Jones. Yn Eglwys y Crwys, Richmond Rd., rhwng 10.30 a.m. a 5.00 p.m. Pris: £10. Manylion pellach: 029-2087-6104.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm

## DARLITHIAU YNG NGHASNEWYDD

Yn ystod y misoedd nesaf cynhelir cyfres o ddarlithiau (yn Saesneg) yn Nghasnewydd ar hanes Gwent er mwyn codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd. Dyma restr o'r darlithoedd:

*Llun, 5 Ebrill*: 'Death Investigation in Ancient Times'
gan yr Athro Bernard Knight

*Llun, 10 Mai*: 'The Bardic Tradition of Gwent'
gan Frank Olding

*Llun, 7 Mehefin*: 'Newport before the Industrial Revolution'
gan Martin Culliford

Cynhelir y darlithoedd yn Ystafell LL1, Prifysgol Casnewydd, Campws Allt-yr-yn, Allt-yr-yn Avenue, Casnewydd. Codir tâl o £3, a'r elw yn mynd at Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd. Bydd pob darlith yn dechrau am 7.30 p.m. Bydd tocynnau ar gael wrth y drws, neu o flaen llaw o Swyddfa'r Eisteddfod, 33 Stryd y Bont, Casnewydd (Ffôn: 0845 120 9555).

Erbyn hyn y mae modd cael gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg yng Ngwent ar y we, gan fod safle we ar gael bellach ar gyfer Newyddion Gwent: www.communigate.co.uk/gwent/newyddiongwent.

## YR AWR HAPUS

Mae'r Awr Hapus bellach wedi dathlu pen blwydd yn ddwy oed - 'ganwyd' Tachwedd 19, 2001, yng Ngwesty Pentref, Coryton, Yr Eglwys Newydd. Rydym o hyd yn cyfarfod rhwng 11 a 12 ar fore Llun yno ym mar Tŷ Bwyta Salingers.

Roedd 2003 yn flwyddyn lwyddiannus: cynhaliwyd 41 cyfarfod a chyfanswm o 530 yn bresenol - dyna gyfartaledd rhwng 12 - 13 pob bore dydd Llun. Erbyn hyn mae 80 person unigol wedi ymweld a ni o leiaf unwaith. Y diweddaraf i dalu ymweliad oedd Emma, Jill a Peter - mae'r tri yn dysgu Cymraeg yn nosbarth Angharad ar fore Gwener yn Mhentwyn.

Croeso cynnes i wynebau hen a newydd ym 2004. Coffi am 11, darllen a deall 11.15 - 11.55 yng ngrwpiau Barbara, Mair a Gwilym, yna can i godi'r galon cyn ffarwelio tua canol dydd.

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU, SAIN FFAGAN

### Cynorthwy-ydd Swyddfa

**Adran Gwasanaethau i Ymwelwyr**
**£11,400 - £12,529 y flwyddyn**

Rydym ni am benodi Cynorthwy-ydd Swyddfa i helpu i gynnig cymorth gweinyddol dwyieithog, gan gynnwys prosesu geiriau, ffeilio a llungopio, i'r Adran Gwasanaethau i Ymwelwyr yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Bydd gofyn hefyd i chi gyflenwi yn y dderbynfa ac ar y switsfwrdd pan fo angen.

Rhaid i chi feddu ar fedrau teipio, a bydd gennych fedrau TG a medrau prosesu geiriau rhagorol. Buasai profiad o ddefnyddio cronfeydd data'n fanteisiol hefyd.

### Derbynnydd/Teleffonydd Rhan-amser

**£11,400 - £12,529 pro rata**
**Oriau gwaith: 21 awr yr wythnos i'w drafod**

Rydym ni'n chwilio hefyd am berson â medrau dwyieithog i weithio ar ein switsfwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n dda, yn ogystal â chyflawni dyletswyddau derbynfa a gweinyddu i gynorthwyo staff ac ymwelwyr Amgueddfa Werin Cymru.

Rhaid i chi feddu ar fedrau rhagorol wrth siarad ar y ffôn a medrau da wrth ofalu am gwsmeriaid. Buasai medrau TG a phrofiad o ddefnyddio cronfeydd data'n fanteisiol.

**Mae'r ddwy swydd yn gofyn am y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

I gael rhagor o fanylion a ffurflen gais, ffoniwch ein peiriant ateb ar 029 2057 3348 neu ewch i'n gwefan sef www.aocc.ac.uk.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 30 Ebrill 2004

***Mae AOCC yn gyflogydd cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau o bob rhan o'r gymuned.***

---

***Aaaaaaaaaaarrrrrrggghhhhh!!!!!!!!!!!!***

***Deffrwch Gymru!***

**Mae Myfanwy mewn perygl!!**

**Mae Myfanwy ar drengi!!**

*Gweler:*

# Trallodion Myfanwy

*Astudiaeth Seicolegol mewn cerdd a chân Arwres Gerddorol Cymru.*

*"Fydd ei hangau'n gyflym a di-boen ynteu yn hir a phoenus fel ei bywyd??!!"*

*Ar gael rŵan (£4.50) yn Rowland's neu Crane's Caerdydd.*

---

# Y Drindod TRINITY @chapter...

Dewch i fwynhau gwaith myfyrwyr Coleg y Drindod Caerfyrddin, Coleg y Gymru Gyfoes. Bydd ein taith gyntaf i'r brifddinas yn rhoi cyfle i chi fwynhau wythnos o berfformiadau, arddangosfeydd, cynyrchiadau a gweithdai ar draws rhychwant o feysydd.

### Archif Yfory

Bydd Robert Francis Venus, myfyriwr ar ei flwyddyn olaf yn y cwrs BA Celf Gain, yn creu gwaith gosod yn ymwneud â hunaniaeth Cymru mewn cymdeithas aml-ddiwylliannol. Bydd y darn yn cynnwys casgliad archif o eitemau wedi'u rhoi gan bobl, gyda phob un yn dangos gweledigaeth bersonol y rhoddwr ynghylch beth yw bod yn Gymro neu'n Gymraes yng Nghymru heddiw. Gwahoddir rhoddion ymlaen llaw a hefyd yn ystod wythnos y gosodiad. Ni ellir dychwelyd eitemau. Am ddim.

### Miwsig a Monologau

Rhaglen amrywiol o glasuron cerddoriaeth gyfoes gyda rhaglen o fonologau cyfrwng Cymraeg yn dilyn. Am ddim.

### Ysgrifennu, Adolygu, Golygu

Cwrs dwys dau ddiwrnod drwy gyfrwng y Saesneg i'r sawl sydd â diddordeb mewn naill ai a) newyddiaduraeth a'r diwydiant cyhoeddi neu b) cyhoeddi eu gwaith eu hunain. Dr Victor Golightly, cyn-olygydd y New Welsh Review sy'n cynnal y cwrs, fydd yn gyfuniad o ddarlithiau a gweithdai. Pris: £20 (£10)

### Cyflwyniad i Ysgrifennu Teithio

Cwrs undydd drwy gyfrwng y Saesneg i'r sawl sydd â diddordeb mewn unrhyw agwedd o ysgrifennu teithio. John Harrison yr awdur fydd yn addysgu'r cwrs. Anogir myfyrwyr i ddod â'u gwaith eu hunain i'r gweithdy ac i gyfrannu i'r trafodaethau. Pris: £10 (£5).

### Ysgrifennu Sgriptiau Byrion

Cwrs ysgrifennu cyfrwng Saesneg i'r sawl sydd â diddordeb mewn cyfansoddi sgript fer tri munud. Fe'i addysgir gan Michele Ryan y gwneuthurwr ffilmiau, a bydd hi'n mynd â myfyrwyr drwy'r holl broses greadigol o ysgrifennu sgriptiau. Pris: £10 (£5).

### Gweithdy King Lear

Cwrs testun yn canolbwyntio ar holl agweddau'r ddrama King Lear, gan gynnwys ei chyd-destun hanesyddol a sut i ddarllen y ddrama. Fe'i addysgir gan Dr Richard Chamberlain, ac fe fydd yn addas i unrhyw un sydd â diddordeb yn nhrasiedi fawr Shakespeare. Pris: £10 (£5).

### I'r Bur Hoff Bae!

Beth mae Caerdydd yn ei olygu i chi? a) Prifddinas Ieuengaf Cymru, b) Dinas ddi-nod sy'n sugno'r holl dalent, swyddi a'r potensial o weddill Cymru neu c) "Meindiwch eich busnes. Chi bobol gyda'ch blydi cwestiwnêrs - chi'n waeth na dybl glêsing sêlsmen, myn uffern i!" Os ateboch A, B neu C i'r uchod, mae angen dos o sioe rifiw ddychanol arnoch chi, felly dewch ar siwrne ffraeth a ffiaidd drwy ein prifddinas gyda myfyrwyr Y Drindod! Pris: £5 (£3) anaddas i blant.

### It would be best if birds did not sing in cages...

Mae'r darnau byrion hyn yn deillio o archwiliad y myfyrwyr i'r syniadau am hunaniaeth ddynol yn theatr yr ugeinfed ganrif. Ar ôl astudio dramodwyr megis Beckett, Lorca a Pinter, yn ogystal â mudiadau artistig megis Dadayddiaeth, ymatebodd y myfyrwyr trwy waith dyfais i greu eu cynhyrchiad eu hunain. Am ddim.

**Swyddfa Docynnau**
**Chapter: 029 2030 4400**
neu Coleg y Drindod: 01267 676767

#### Llun 29 Mawrth
10am-4pm Ysgrifennu, Adolygu, Golygu

#### Mawrth 30 Mawrth
10am-4pm Ysgrifennu, Adolygu, Golygu
drwy'r dydd Archif Yfory

#### Mercher 31 Mawrth
10am-4pm Cyflwyniad i Ysgrifennu Teithio
8.00pm I'r Bur Hoff Bae!
8.00pm It would be best if birds did not sing in cages...
drwy'r dydd Archif Yfory

#### Iau 1 Ebrill
10am-4pm Gweithdy King Lear
12.30pm Miwsig a Monologau
1.30pm It would be best if birds did not sing in cages...
8.00pm I'r Bur Hoff Bae!
drwy'r dydd Archif Yfory

#### Gwener 2 Ebrill
10am-4pm Gweithdy King Lear
12.30pm Miwsig a Monologau
1.30pm It would be best if birds did not sing in cages...
8.00pm I'r Bur Hoff Bae!
drwy'r dydd Archif Yfory

#### Sadwrn 3 Ebrill
10am-4pm Ysgrifennu Sgriptiau Byrion

**COLEG Y DRINDOD CAERFYRDDIN**